

HUGHES, JOHN JAMES ('Alfardd'; 1842 - 1875?), newyddiadurwr

Enw: John James Hughes
Ffugenw: Alfardd
Dyddiad geni: 1842
Dyddiad marw: 1875?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yn y Garreg Lefn, plwyf Llanbadrig, Môn. Llafurwr amaethyddol oedd ei dad, a bu yntau yn gweini ar ffermydd am ysbaid cyn myned i Fangor yn was saer maen. Ym Mangor daeth dan ddylanwad gŵr arall o Fôn, '[Gweirydd ap Rhys](#)', a dechreuodd ei ddiwyllio ei hun. Yn 1866 ymunodd â heddlu sir Gaernarfon, ond ymddiswyddodd tua 1869 pan benodwyd ef yn is-olygydd *Yr Herald Cymraeg* yng Nghaernarfon. 'Fe deimlwyd yn union,' medd '[Alafon](#),' fod dawn ac ysbryd newydd wedi dechrau gweithredu ar a thrwy yr hen newyddiadur parchus, 'o'r adeg yr ymunodd 'Alfardd' â'r staff. Cymerodd ran amlwg yn y mudiad i sicrhau barnwyr yn medru Cymraeg yn y llysoedd sirol yng Nghymru, a bu'n gweithio hefyd i ddiwygio'r eisteddfod genedlaethol a'r Orsedd. Bu farw 8 Ionawr 1875, a'i gladdu ym mynwent Glanadda, Bangor. Er byrred ei yrfa fel gŵr cyhoeddus, gadawodd argraff ddofn ar feddyliau y rhai a ddaeth i gyffyrddiad ag ef.

Gweler *Cofiant* gan Owen Jones.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, January 1875

Y Geninen (Gŵyl Dewi), 1891, 58; Hydref, 232

gwybodaeth gan Mr. C. Elfyn Hughes, Bangor

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John James Hughes](#)

Gweithiau

Pye Henry Chavasse, John James Hughes (cyf.), *Priod a sengl: sef cyngor i wraig yn cynnwys llaw-lyfr i'r ferch ieuanc a'r wraig briod* ([Caernarfon 187-](#))

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q19790482](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.